

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

---

Lleoliad:  
Ystafell Bwyllgora 3 – y Senedd

---

Dyddiad:  
Dydd Llun, 2 Tachwedd 2015

---

Amser:  
14.30

---

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:

**Gareth Williams**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

[SeneddMCD@Cynulliad.Cymru](mailto:SeneddMCD@Cynulliad.Cymru)

---

## Agenda

---

**1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**

**2 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3**

(Tudalennau 1 – 2)

**CLA(4)–26–15 – Paper 1 – Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir**

**CLA591 – Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwyso Deddfiadau) (Cymru) (Diwygio) 2015**

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 12 Hydref 2015; Fe'u gosodwyd ar: 15 Hydref 2015; Yn dod i rym ar: 6 Tachwedd 2015

**CLA592 – Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**

## **(Darpariaethau Canlyniadol) 2015**

Y weithdrefn gadarnhaol; Fe'u gwnaed ar: dyddiad heb ei nodi: Fe'u gosodwyd ar: 20 Hydref 2015; Yn dod i rym ar: dyddiad heb ei nodi

### **CLA593 – Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) (Diwygio) 2015**

Y weithdrefn negyddol; Fe'u gwnaed ar: 16 Hydref 2015; Fe'u gosodwyd ar: 20 Hydref 2015; Yn dod i rym ar: 10 Tachwedd 2015

## **3 Papurau i'w nodi (Tudalennau 3 – 8)**

**CLA(4)–26–15 – Papur 2** – Gohebiaeth gan y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru, i sylw David Melding AC, Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**CLA(4)–26–15 – Papur 3** – Gohebiaeth gan y Llywydd am waith etifeddiaeth y Pwyllgor Busnes

**CLA(4)–26–15 – Papur 4** – Gohebiaeth gan yr Arglwydd Boswell o Aynho, Cadeirydd Pwyllgor Undeb Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi ynghylch y sesiwn dystiolaeth ddiweddar

## **4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:**

(ix) lle mae unrhyw fater sy'n ymwneud â busnes mewnol y pwyllgor, neu fusnes mewnol y Cynulliad, i gael ei drafod.

**Sesiwn friffio gyfreithiol ar Fil drafft Cymru. (Tudalennau 9 – 26)**

**CLA(4)–26–15 – Papur 5 – Papur Briffio Cyfreithiol**

**Trafod gwaith y Pwyllgor ar agenda Llywodraeth y DU o ran diwygio'r UE (Tudalennau 27 – 48)**

**CLA(4)-26-15 – Papur 6 – Trafod gwaith y Pwyllgor ar agenda Llywodraeth y DU o ran diwygio'r UE**

**Adroddiad drafft: Bil Iechyd y Cyhoedd (Cymru) (Tudalennau 49 – 77)**

**CLA(4)-26-15 – Papur 7 – Adroddiad Drafft**

**Adroddiad drafft: Y Bil Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) (Tudalennau 78 – 91)**

**CLA(4)-26-15 – Papur 8 – Adroddiad drafft**

### Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir

2 Tachwedd 2015

CLA591 - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwysio Deddfiadau) (Cymru) (Diwygio) 2015

Gweithdrefn: Negyddol

---

Bwriad Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 yw gosod cyfrifoldeb statudol ynghylch cynllunio strategol ar bob ysgol a gynhelir, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd. Roedd rheoliad 10 yn cyfeirio'n wallus at "Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwysio Deddfiadau) (Cymru) 2007" yn hytrach na "Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014". Mae'r rheoliadau hyn yn cywiro'r camgymeriad hwnnw.

CLA592 - Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015

Gweithdrefn: Cadarnhaol

---

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau canlyniadol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adran 15 o'r Ddeddf, sy'n diffinio'r cyfnod adrodd ar gyfer archwiliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r adran hon i fod i ddod i rym llai na blwyddyn cyn etholiad cyffredinol nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd amheuaeth ynghylch pryd y bydd y cyfnod adrodd cyntaf a ddisgrifir yn is-adran(6) o adran 15 yn dechrau. Mae'r rheoliad hwn, felly, yn addasu adran 15(6)(a) er mwyn ei gwneud yn glir bod y cyfnod adrodd cyntaf o dan yr adran hon yn dechrau un mis cyn yr etholiad nesaf (yn ymarferol, 5 Ebrill 2016 fydd y dyddiad hwn).

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("y Comisiynydd") o ran yr amcangyfrifon incwm a threuliau ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017. Mae paragraff 19 o Atodlen 2 i'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiynydd lunio amcangyfrif o incwm a threuliau'r Comisiynydd a staff y Comisiynydd ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac eithrio'r flwyddyn gyntaf. Yn unol â pharagraff 19(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, mae gofyn i'r Comisiynydd gyflwyno'r amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

O ystyried yr amserlen ar gyfer penodi'r Comisiynydd, mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ganlyniadol sy'n addasu paragraff 19(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, fel bod yn rhaid i'r Comisiynydd--ar gyfer



blwyddyn ariannol 2016-2017 yn unig--gyflwyno'r amcangyfrif dri mis ar ôl iddo gael ei benodi gan Weinidogion Cymru.

## CLA593 - Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) (Diwygio) 2015

### Gweithdrefn: Negyddol

---

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005, sy'n gwneud darpariaeth o dan adran 98 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 at ddibenion cynorthwyo personau a fabwysiadwyd cyn 30 Rhagfyr 2005 i gael gwybodaeth am eu mabwysiadu ac i hwyluso cysylltiad rhwng y bobl hynny a'u perthnasau geni.





**Wales Office**  
**Swyddfa Cymru**

**Rt Hon Stephen Crabb MP**  
Secretary of State for Wales

Gwydyr House  
London, SW1A  
2NP

Tŷ Gwydyr  
Llundain, SW1A  
2NP

1 Caspian Point  
Cardiff Bay, CF10  
4DQ

1 Pwynt Caspian  
Bae Caerdydd,  
CF10 4DQ

[www.walesoffice.gov.uk](http://www.walesoffice.gov.uk)

David Melding AM  
Chair Constitutional and Legislative Affairs  
Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff Bay  
Cardiff CF99 1NA

Ref: 457Sub 15

 October 2015


*Dear David,*

## **DRAFT WALES BILL**

I enclose a copy of the Draft Wales Bill Command Paper. This draft Bill sets out in detail how the UK Government plans to deliver the St David's Day commitments to create a stronger, clearer and fairer devolution settlement for Wales that will stand the test of time.

The draft Bill includes a reserved powers model, forming the basis of a new devolution settlement for Wales and providing a clear boundary between reserved and devolved powers. It also devolves further powers to the National Assembly over energy, transport and local government and Assembly elections.

I look forward to giving evidence to the Committee next month.

*Kind regards,* 

**Rt Hon Stephen Crabb MP**  
Secretary of State for Wales

7 Hydref 2015

## Annwyl Gadeirydd

Mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu cynhyrchu adroddiad etifeddiaeth ac mae'n casglu barn ar y gwaith y mae wedi ei wneud yn ystod y pum mlynedd diwethaf gan gynnwys y strwythurau y mae wedi rhoi ar waith, y diwygiadau gweithdrefnol y mae wedi cyflwyno, a'i ffyrdd o weithio. Bydd yr adroddiad terfynol yn helpu i lywio'r pwyllgor olynol i wneud nifer o benderfyniadau allweddol ar ddechrau'r Pumed Cynulliad.

Mae'r Pwyllgor yn ymgynghori ar y **cwestiynau a nodir yn Atodiad A**. Byddwch yn ymwybodol fy mod eisoes wedi sefydlu Fforwm i Gadeiryddion i ystyried llawer o'r materion hyn o safbwynt pwyllgor, ac i gyflwyno adroddiad i mi erbyn diwedd y flwyddyn. Bydd adroddiad y Fforwm i Gadeiryddion yn rhan o adroddiad etifeddiaeth y Pwyllgor Busnes ei hun, ond roeddwn eisiau rhoi cyfle ychwanegol i'ch pwyllgor, drwy'r ymgynghoriad hwn, i godi unrhyw faterion penodol sy'n ymwneud â gwaith eich pwyllgor y byddech efallai am dynnu sylw'r Pwyllgor Busnes atynt.

Mae'r Pwyllgor hefyd yn ymgynghori â rhanddeiliaid allanol, a'r dyddiad cau ar gyfer sylwadau yw **13 Tachwedd 2015**. Byddwn yn cyfarfod ddechrau mis Rhagfyr i ystyried y dystiolaeth a gasglwyd, felly gofynnwn ichi gyflwyno sylwadau mewn da bryd er mwyn iddynt gael eu hystyried yn y cyfarfod hwnnw.

Os hoffech gyflwyno dystiolaeth, anfonwch gopi electronig at [SeneddPwyllgorBusnes@Cynulliad.Cymru](mailto:SeneddPwyllgorBusnes@Cynulliad.Cymru). Fel arall, gallwch ysgrifennu at: Clerc y Pwyllgor, Y Pwyllgor Busnes, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd, CF99 1NA.

## Datgelu gwybodaeth

Mae rhagor o fanylion am sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth yn <http://www.cynulliad.cymru/cy/help/privacy/Pages/help-inquiry-privacy.aspx>  
Gofynnwn ichi sicrhau eich bod wedi ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn



cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Fel arall, mae copi caled o'r polisi hwn ar gael drwy gysylltu â'r Clerc.

*Rosemary Butler*

**Y Fonesig Rosemary Butler AC**

Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

**Atodiad A**

**Cylch gorchwyl yr ymchwiliad:**





Yn ystod y Cynulliad presennol, mae'r Llywydd a'r Pwyllgor Busnes wedi cyflwyno nifer o ddiwygiadau gweithdrefnol, gan gynnwys newid y dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno Cwestiynau Llafar y Cynulliad, cyflwyno Dadleuon Aelodau Unigol rheolaidd, a chwestiynau arweinwyr a llefarwyr y pleidiau.

- Pa effaith a gafodd y diwygiadau hyn o ran galluogi Aelodau i gynrychioli eu hetholwyr a dwyn y Llywodraeth i gyfrif?

Am y tro cyntaf, mae strwythur pwyllgorau'r Pedwerydd Cynulliad wedi cyfuno craffu ar bolisi a chraffu deddfwriaethol o fewn yr un pwyllgorau.

- Pa mor effeithiol y mae'r dull hwn wedi bod a sut mae'r pwyllgorau wedi sicrhau cydbwysedd rhwng eu gwaith craffu ar bolisi, craffu ariannol a chraffu deddfwriaethol?
- Pa newidiadau y gellid eu gwneud i faint a strwythur pwyllgorau yn y dyfodol i'w gwneud yn fwy effeithiol?

Y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am bennu amserlen y Cynulliad, gan gynnwys amserlennu cyfarfodydd y pwyllgorau. Ar hyn o bryd, cynhelir y Cyfarfod Llawn ar brynhawn Mawrth a phrynhawn Mercher, gyda phwyllgorau yn cwrdd yn bennaf ar fore Mawrth a bore Mercher a dydd Iau.

- A yw amserlen bresennol y Cynulliad, gan gynnwys strwythur yr wythnos waith a sesiynau'r pwyllgorau / Cyfarfod Llawn yn sicrhau'r cydbwysedd cywir o ran y defnydd o amser y Cynulliad, a chaniatáu iddo gyflawni ei swyddogaethau'n effeithiol o ran deddfu, cynrychioli pobl Cymru a dwyn y Llywodraeth i gyfrif;

Y Pwyllgor Busnes sy'n gyfrifol am sefydlu amserlenni ar gyfer pwyllgorau i ystyried Biliau a Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol, yn unol â'r Rheolau Sefydlog.



- A yw'r prosesau presennol ar gyfer amserlennu deddfwriaeth – gan gynnwys Biliau a Chynigion Cydsyniad Deddfwriaethol – yn caniatáu ar gyfer craffu priodol ac ymgysylltu gan Aelodau a rhanddeiliaid? A ellid eu gwneud yn fwy effeithiol?

Yn wahanol i bwyllgorau cyfatebol mewn llawer o deddfwrfeydd eraill, mae Pwyllgor Busnes y Cynulliad yn cyfuno'r swyddogaeth o amserlennu busnes y Cynulliad gyda swyddogaethau 'pwyllgor gweithdrefnau' sy'n gyfrifol am ystyried a chynnig newidiadau i Reolau Sefydlog a gweithdrefnau'r Cynulliad.

- Beth yw manteision ac anfanteision y rôl ddeuol hon, ac a oes achos dros ei hadolygu?





# HOUSE OF LORDS

European Union Committee

House of Lords  
London  
SW1A 0PW

Tel: 020 7219 5864  
Fax: 020 7219 6715  
euclords@parliament.uk  
www.parliament.uk/lords

26 October 2015

David Melding AM  
Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee  
National Assembly for Wales  
Cardiff CF99 1NA  
Wales

Dear Mr Melding *David,*

I am writing to extend my warm thanks to you and, through you, to the staff of the National Assembly, who made our visit to Cardiff on 19 October such a success. A huge amount of work went into organisation, at all levels, from catering to broadcasting, and the outcome, in my view, amply demonstrated the benefits that close collaboration between our committees—and, more generally, between London and Cardiff—can deliver.

On a more political note, I would like to thank you and your colleagues on the Constitutional and Legal Affairs Committee for your frank and thoughtful answers to our questions. It was clear from our discussions in Cardiff that there is concern over the level of consultation on the Government's proposals for EU reform, and over the extent to which Welsh views and interests are reflected in those proposals. I hope our report will go some way to redressing the balance.

Lord Boswell of Aynho  
Chairman of the European Union Committee

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

# Eitem 4.4

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon